

# Cymeriadau Difyr



| | |
|---|---|
| Agwedd: | **Siâp – siapiau 3D** |
| Adnoddau: | • Set fawr o siapiau 3D o amrywiol feintiau – pyramid, ciwb, ciwboid, silindr.<br>• Casgliad mawr o focsys gwag o amrywiol siapiau a meintiau. |
| Camau: | **Cam 1: Cyflwyniad**<br>Astudio pob siâp gan drafod eu priodweddau, e.e. sawl ochr, cornel, wyneb sydd gan y siâp hwn? / 'I beth mae'r siâp yn debyg?' / 'Ydych chi wedi gweld y siâp hwn yn rhywle o'r blaen?'<br><br>**Cam 2: Gweithgareddau didoli**<br>• Rhoi pentwr o siapiau amrywiol i'r dysgwyr.<br>• Didoli'r siapiau yn ôl eu henwau.<br>• Cyfri sawl un o bob siâp sydd yno.<br>• Cofnodi'r rhif a chyfateb gyda numicon.<br><br>**Cam 3: Didoli bocsys mawr**<br>Astudio pentwr o focsys a phecynnau gwag, e.e. pecynnau bwyd gwag. Paru pob pecyn gyda siâp cyfatebol o set siapiau 3D y dosbarth.<br><br>**Cam 4: Crefft mawr**<br>Creu amrywiol wrthrychau allan o becynnau a bocsys mawr gwag, e.e robot, lindys, trên, tractor...<br><br>**Cam 5: Creu**<br>Creu amrywiol wrthrychau gan ddefnyddio'r set o siapiau 3D sydd yn y dosbarth, e.e. robot, lindys, trên, tractor...<br><br>**Cam 6: Ardal allanol**<br>Mynd am daith o gwmpas campws yr ysgol/adeilad yr ysgol yn chwilio am siapiau 3D o'ch cwmpas.<br>Llenwi siart rhicbren er mwyn cofnodi sawl un a welir.<br>Trafod y data ar ôl dychwelyd i'r dosbarth.<br>Trafod:<br>• Sawl silindr welon ni?<br>• Pa siâp oedd yr un mwyaf poblogaidd?<br>• Ble welon ni giwb?<br>• Cofnodi'r data mewn pictogram. |



# Cymeriadau Difyr



| | |
|---|---|
| | **<u>Cam 7: Helfa'r siapau</u>**<br>Cuddio llawer o siapiau yn yr ardal allanol a'r dysgwyr i fynd i chwilio amdanynt. Eu didoli i grwpiau yn ôl eu siâp ar ôl eu casglu. Yna eu cyfrif a chofnodi eu niferoedd. |
| Cwestiynu: | • Beth yw enw'r siâp hwn?<br>• Sawl cornel/ochr/wyneb sydd gan y siâp?<br>• Ble welwch chi silindr/ciwb/pyramid/?<br>• I beth mae'r siâp yn debyg? |
| Beth nesaf? | Astudio amrywiaeth ehangach o siapiau 3D. |



Peniarth .cymru
adnodd yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru supporting the Curriculum for Wales